Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Llanbister
# Llanbister
# Llandrindod
# Powys
# LD1 6TN

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sirol Llanbister

Mae Ysgol Gynradd Llanbister ym mhentref Llanbister yn awdurdod lleol Powys. Mae 61 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed, wedi eu trefnu'n ddau ddosbarth oedran cymysg.

Y cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yw tua 2%. Mae hyn yn is o lawer na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol neu'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol. Nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 7% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ymhell islaw'r ganran genedlaethol, sef 21%.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2018 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf gan Estyn ym mis Ionawr 2015.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau iaith, mathemategol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni'n dda yn unol â'u targedau personol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n ymroi'n dda i brofiadau newydd yn hyderus. Dangosant agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn frwdfrydig ynglŷn â buddion a llwyddiannau eu hysgol. Dangosant ofal am ei gilydd, a llawer o barch tuag at staff ac ymwelwyr.

Mae'r addysgu yn cefnogi dysgu disgyblion yn dda, ac mae'r athrawon a'r cynorthwywyr addysgu yn gofalu'n ddiwyd ac yn gydwybodol am ddisgyblion. Maent yn rhoi arweiniad a chymorth gwerthfawr i ddisgyblion a'u teuluoedd trwy gydol eu hymglymiad â'r ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae gan y pennaeth a'r llywodraethwyr weledigaeth glir i symud yr ysgol ymlaen. Maent yn adeiladu'n synhwyrol ar gryfderau'r ysgol ac yn gwella meysydd i'w datblygu yn ddoeth, trwy brosesau gwella ansawdd pwrpasol.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella cynllunio medrau ysgrifennu a rhifedd i sicrhau dilyniant mwy effeithiol ar draws cyfnod allweddol 2

A2 Cynllunio gweithgareddau heriol i ddisgyblion ddatrys problemau'n annibynnol, yn enwedig y disgyblion mwy abl

A3 Sicrhau bod y pennaeth yn cael digon o amser i ymgymryd â'i ddyletswyddau arwain a rheoli mewn ffordd gynaliadwy

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh effeithiol. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni'n dda yn unol â'u targedau personol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn bwrpasol, ac maent yn deall bod gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd yn cyfrannu'n fuddiol at eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn trafod sut i roi digwyddiadau'n ymwneud â Thân Mawr Llundain yn eu trefn yn synhwyrol, ac maent yn galw i gof storïau am anturiaethau arch-arwyr yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol, er enghraifft pan fyddant yn dadansoddi anturiaethau Howard Carter ym meddrodau'r Aifft. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio iaith soffistigedig yn ddeallus i esbonio magwraeth Romulus a Remus a'u rhan mewn sefydlu Rhufain.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ystod addas o destunau'n llwyddiannus. Defnyddiant strategaethau ffoneg yn synhwyrol i greu ac ynganu geiriau anghyfarwydd yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod cynnwys llyfrau'n bwrpasol ac yn ymateb yn sensitif i deimladau cymeriadau penodol, fel anifeiliaid sy'n byw mewn sw. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ofalus ac yn huawdl. Maent yn ymddiddori'n dda mewn llyfrau ffuglen a ffeithiol, ac yn defnyddio ymchwil ar y rhyngrwyd yn helaeth, er enghraifft wrth ymchwilio i'r Blits yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a diwylliant Yr Aifft. O ganlyniad, maent yn ymarfer eu medrau darllen lefel uwch yn rheolaidd i ddarganfod gwybodaeth o wahanol ffynonellau'n llwyddiannus.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu at wahanol ddibenion ac mewn ystod o gyd-destunau yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn ysgrifennu'n dda ac mewn ffurfiau estynedig. Mae eu hysgrifennu'n cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i wneud a phobi bisgedi, a darnau addysgiadol ar bwysigrwydd yr ysgerbwd a phrif organau'r corff. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n graff at ystod eang o ddibenion. Er enghraifft, maent yn adrodd yn gywir am sut gwnaethant drefnu ymweliad preswyl i Gaerdydd gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus a'u profiadau yn y brifddinas. Hefyd, maent yn cofnodi eu rhagfynegiadau a'u casgliadau'n ddiwyd wrth ymchwilio i effaith cadw mefus mewn cyflwr bwytadwy trwy ddefnyddio gwahanol ddulliau, fel eu halltu neu'u rhewi.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu medrau llafaredd Cymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio ymadroddion addas yn rheolaidd mewn sefyllfaoedd bob dydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn effeithiol yn ystod trafodaethau ag athrawon ac â'i gilydd. Mae medrau darllen ac ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn Gymraeg yn datblygu'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o sut i ddefnyddio eu medrau mathemategol mewn sefyllfaoedd bob dydd. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau'n dda i ehangu eu gwybodaeth fathemategol yn effeithiol yn ystod gwersi. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn cofnodi tymereddau yn ystod sesiynau'r bore ac yn cymharu'r gwahaniaethau dyddiol yn hyderus. Maent hefyd yn creu tarian gymesur yn effeithlon, gan ddefnyddio haneri, chwarteri a symbolau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau rhifedd yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio data'n gywir ac yn ei gyflwyno mewn ffurfiau amrywiol yn bwrpasol. Defnyddiant wahanol graffiau i gyfleu gwybodaeth wyddonol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu graffiau gwasgariad pwrpasol i nodi cysylltiadau rhwng hyd a phwysau crwbanod a defnyddiant graffiau llinell i gymharu hydoedd cysgodion ar adegau amrywiol o'r diwrnod. Maent yn defnyddio cyfesurynnau'n dda hefyd i blotio trionglau mewn pedwar cwadrant ac yn cymharu cylchedd pennau disgyblion â'u taldra yn graff. Fodd bynnag, o ganlyniad i gyfleoedd cyfyngedig, nid yw disgyblion yn datrys problemau'n ddigon annibynnol, yn enwedig y disgyblion mwyaf abl.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer TGCh yn hyderus. Er enghraifft, maent yn rheoli teganau electronig wrth iddynt deithio o gwmpas tirluniau dinasoedd ac yn creu animeiddiadau i achub cymeriadau rhag boddi mewn dŵr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos medrau TGCh effeithiol. Maent yn cymhwyso eu medrau ac yn dewis dulliau synhwyrol i gyflwyno'u gwaith yn bwrpasol, fel defnyddio sgriniau gwyrdd i addasu cefndiroedd sy'n cyd-fynd â'u darlleniadau barddoniaeth. Maent yn defnyddio taenlenni a chronfeydd data i gofnodi gwybodaeth bersonol yn gysylltiedig â thestun ar fesuriadau yn effeithiol ac yn creu cyflwyniadau addysgiadol ar eu gwyliau a'u hanifeiliaid anwes. Yn ychwanegol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio cyfrineiriau diogel, yn yr ysgol a gartref, i fynd at dasgau ar-lein yn ddiogel.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae lles bron pob un o'r disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn nodweddion cryf o'r ysgol. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol ac maent yn hyderus y gallant siarad ag oedolion a'u ffrindiau os byddant yn poeni neu'n gofidio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i aros yn ddiogel yn yr ysgol a phan fyddant ar-lein. Er enghraifft, mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn deall ac yn esbonio'n agored beth yw risgiau posibl defnyddio'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol yn ddiofal.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn dosbarthiadau ac yn yr awyr agored yn ystod amseroedd chwarae. Maent yn symud o gwmpas yr ysgol yn synhwyrol wrth brofi gwahanol weithgareddau dysgu, fel gwersi cerddoriaeth. Maent yn ymdawelu'n gyflym yn y dosbarth ac yn barod i ddysgu'n brydlon. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais iawn, ac yn dangos parch at ymwelwyr, staff ac at ei gilydd. Mae disgyblion yn rhannu neges ar y cyd yn seiliedig ar 'Dylech drin pobl eraill yn y ffordd y byddech chi'n disgwyl cael eich trin' ac mae hyn yn ysgogi'r rhyngweithio cadarnhaol sy'n bodoli rhwng disgyblion o bob oedran. Maent yn hyrwyddo ethos teuluol yr ysgol trwy ddangos empathi at ddisgyblion eraill ar iard yr ysgol wrth yr 'arhosfan ffrindiau' a thrwy drefnu gweithgareddau chwarae. Maent yn ystyriol o anghenion ei gilydd ac yn cynnig cymorth parod i ddisgyblion sy'n dangos yr angen am gyngor gan gyfoedion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol fel unigolion, mewn parau ac mewn grwpiau. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn cyfrannu'n ddeallus at y camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda at yr hyn maent yn ei ddysgu wrth gynllunio gweithgareddau a thestunau, er enghraifft pan fyddant yn gwerthu eu cynnyrch eu hunain i godi arian ar gyfer yr ysgol ym marchnad leol y ffermwyr, yn dilyn eu hymchwil ar eifr yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i gadw'n iach a diogel. Mae arweinwyr y grŵp iechyd disgyblion yn arwain yn effeithiol ar annog disgyblion i wneud dewisiadau synhwyrol am ffordd o fyw. Mae disgyblion yn dangos gwybodaeth gadarn am fwydydd sy'n dda i chi ac yn trafod yn ddeallus bwysigrwydd bwyta ffrwythau a llysiau'n rheolaidd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd gweithgarwch corfforol wrth ofalu am eu cyrff, yn enwedig eu calonnau. Maent yn croesawu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a chwarae gemau amser cinio ac mewn clybiau buddiol ar ôl yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys dawns a gweithgareddau medrau pêl, sy'n eu helpu i wella'u hiechyd a'u lles. Yn ychwanegol, mae'r pwyllgor eco yn hyrwyddo dealltwriaeth well o gynaliadwyedd ac ailgylchu. Trwy eu hargymhellion, nid yw bron pob un o'r disgyblion yn llenwi eu poteli dŵr at y top er mwyn arbed dŵr.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn oddefgar a sensitif i anghenion a safbwyntiau disgyblion eraill. Maent yn gwybod am nodweddion gwledydd difreintiedig sy'n dioddef o ganlyniad i ryfel, newyn neu sychder. O ganlyniad, mae bron pob un ohonynt yn meddu ar ymwybyddiaeth gadarn o degwch a phwysigrwydd cyfle cyfartal. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn huawdl am bwysigrwydd gofalu am y blaned yn ofalus. Er enghraifft, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o effaith niweidiol plastig ar fywyd môr. O ganlyniad i hyn, lleihawyd defnydd disgyblion o boteli llaeth plastig yn y cyfnod sylfaen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn gydwybodol. Dangosant ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd a diben eu rolau. O ganlyniad, mae aelodau'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco, yr arweinwyr digidol, y grŵp iechyd a'r 'Criw Cymraeg' yn cyfrannu'n fuddiol at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol yn trefnu gweithgareddau codi arian i brynu adnoddau ychwanegol ar gyfer iard yr ysgol. Hefyd, maent yn cyfrannu at y cylchlythyr lleol am ddigwyddiadau yn yr ysgol yn effeithiol.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn y blynyddoedd diwethaf yn cymharu'n ffafriol â rhai ysgolion tebyg, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn mynychu'r ysgol yn brydlon.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Ar draws yr ysgol, mae pob un o'r staff yn sefydlu perthnasoedd gwaith pwrpasol gyda disgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a'u lles. Mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gadarnhaol ac yn trin pob disgybl yn gyfartal a gyda pharch priodol. Mae'r addysgu'n meithrin agweddau cadarnhaol ymhlith disgyblion. Mae'n eu hannog i gyflawni eu gorau yn gyson, a chyflwyno eu gwaith i safon uchel. Er enghraifft, maent yn cystadlu mewn cystadlaethau llawysgrifen a chelf lleol yn llwyddiannus.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn gweithio fel tîm effeithiol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob disgybl. Maent yn herio medrau meddwl disgyblion yn effeithiol trwy gwestiynau dygn a heriol. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn ymroi'n llawn i'w tasgau, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn dangos cymhelliant cryf, sy'n datblygu etheg gwaith gadarnhaol. Mae'r athrawon yn gweithio'n dda gydag ysgolion eraill i fynd i'r afael â gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu prosiectau creadigol ac awyr agored gydag ysgolion lleol i hyrwyddo medrau dyfeisgar a chorfforol disgyblion yn effeithiol.

Mae dosbarthiadau athrawon yn amgylcheddau ysgogol sy'n galluogi disgyblion i ddysgu'n gynhyrchiol. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a chreadigol sy'n ennyn diddordebau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu bywiog sy'n hyrwyddo dysgu disgyblion ac yn cyfoethogi eu dealltwriaeth o wahanol destunau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw cynllunio gweithgareddau heriol i ddisgyblion ddatrys problemau'n annibynnol, yn enwedig y disgyblion mwyaf abl, wedi'i ddatblygu cystal.

Mae athrawon yn ystyried syniadau disgyblion fel rhan o'r broses gynllunio yn feddylgar. Defnyddiant awgrymiadau disgyblion yn synhwyrol i greu testunau diddorol a phrofiadau dysgu dychmygus. Mae hyn yn sbarduno diddordeb y disgyblion ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn dylunio a chreu catapwlt i saethu wyau fel model o sut roedd milwyr yn ymosod ar gestyll yn ystod teyrnasiad y Tywysog Llywelyn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae staff yn caniatáu mynediad parhaus i ddisgyblion at yr adnoddau awyr agored datblygol. Mae hyn yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymchwilio, meithrin ac ymarfer eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh trwy weithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n dda. Mae trefnu tasgau'n effeithiol yn adlewyrchu dealltwriaeth gadarn y staff o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Er enghraifft, defnyddiant wybodaeth wledig y disgyblion i wella eu medrau a'u dealltwriaeth trwy brofiadau dysgu ymarferol yn gysylltiedig â ffermio. Mae hyn yn meithrin agwedd gadarnhaol at ddysgu ac yn annog disgyblion i ddyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Enghraifft effeithiol yw pan fydd disgyblion iau yn ymarfer eu medrau rhifedd a llythrennedd yn ystod gweithgareddau chwarae arloesol, pan fyddant yn gwneud jig-sos i greu eu henwau eu hunain.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn annog disgyblion i gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn eu dysgu, ond nid yw athrawon bob amser yn cynllunio datblygu'r camau nesaf ym medrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn ddigon da. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau creadigol a TGCh disgyblion yn gryfder. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau celf llwyddiannus yn yr awyr agored a chreu a chasglu gwybodaeth o gronfeydd data a thaenlenni yn effeithiol.

Mae athrawon yn rhoi adborth manwl a defnyddiol i ddisgyblion wella'u gwaith. Maent yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymateb i sylwadau a thrafodaethau ac yn annog gwerthusiadau personol aeddfed yn ystod sesiynau myfyrio. Mae athrawon yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod gwersi. Maent yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd cyfrifoldeb effeithiol am eu gwaith a'u cynnydd ac maent yn trafod hyn yn hyderus gyda phobl eraill.

Mae'r ysgol yn addysgu disgyblion yn llwyddiannus am fanteision dysgu Cymraeg a bod yn ddwyieithog. Mae'r ysgol yn cynllunio gweithgareddau dysgu diddorol sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru. Mae hyn yn cynnwys astudio cloddio glo a'i risgiau i fywydau glowyr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar, sy'n darparu amgylchedd croesawgar ar gyfer disgyblion. Mae staff yn darparu lefelau uchel o ofal a chymorth, ac maent yn targedu anghenion unigol disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn creu amgylchedd meithringar y gall disgyblion ffynnu ynddo. Mae pob un o'r staff yn cydweithredu'n effeithiol er budd lles pob disgybl. Maent yn hyrwyddo strategaethau ymddygiad effeithiol, sy'n annog disgyblion i wneud penderfyniadau moesol synhwyrol yn eu bywydau bob dydd.

Mae athrawon yn defnyddio systemau trylwyr i olrhain cynnydd addysgol disgyblion. Maent yn diweddaru'r rhain yn rheolaidd ac yn defnyddio'r wybodaeth i dargedu cymorth perthnasol yn effeithiol. Maent yn ymyrryd yn gynnar i ddarparu strategaethau cymorth trylwyr ar gyfer unigolion a grwpiau sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag amrywiaeth o asiantaethau allanol i roi cymorth arbenigol gwerthfawr i ddisgyblion pan fydd angen. Mae hyn yn helpu disgyblion targedig i wneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol yn effeithiol.

Mae athrawon yn darparu digonedd o gyfleoedd ar gyfer disgyblion, trwy bwyllgorau niferus, i fabwysiadu cyfrifoldebau cymdeithasol. Mae'r ysgol yn gweithredu argymhellion gan y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco i gyfoethogi dysgu disgyblion yn amgylchedd yr ysgol yn dda. Er enghraifft, ar ôl i wyau ddeor mewn deoryddion a magu'r cywion, mae disgyblion yn gofalu am yr ieir ar dir yr ysgol erbyn hyn. Mae gwasanaethau ysgol a dosbarth yn galluogi disgyblion i feddwl yn ysbrydol a myfyrio ar faterion cymdeithasol pwysig, fel erchyllterau rhyfel.

Mae athrawon yn datblygu perthnasoedd effeithiol iawn gyda rhieni sydd o fudd cadarnhaol i gynnydd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni ac yn gweithredu polisi drws agored pwrpasol. Mae'r defnydd gofalus o gyfryngau cymdeithasol, cyfarfodydd rheolaidd rhwng rhieni ac athrawon, a'r wefan addysgiadol, yn sicrhau bod rhieni'n cael eu hysbysu'n dda am fywyd ysgol a chynnydd eu plant. Cynhelir sesiynau hyfforddiant defnyddiol ar gyfer rhieni pan fydd eu plant yn dechrau'r ysgol. Mae'r rhain yn sicrhau bod disgyblion yn ymgynefino'n gyflym, ac maent yn helpu rhieni i gynorthwyo eu plant trwy roi profiadau darllen cynnar a phrofiadau cymdeithasol iddynt.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol, y gymuned leol a'r byd ehangach. Mae ymdeimlad cadarnhaol o gymuned yn bodoli o fewn yr ysgol a'r ardal. Mae hyn yn annog disgyblion i ddatblygu gwerthoedd teyrngarwch a chyfrifoldeb i'w pentref a'r ardal gyfagos yn dda. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gwasanaethau dathlu, eisteddfodau, cystadlaethau chwaraeon a gweithgareddau elusennol yn frwdfrydig.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru yn effeithiol. Mae ymweliadau addysgol â chestyll lleol ac ymweliadau preswyl yn codi ymwybyddiaeth

disgyblion am eu hardal leol yn bwrpasol.  Mae'r ysgol yn gwahodd ymwelwyr i'r ysgol i gynnal gweithdai a phrosiectau i hyrwyddo cerddoriaeth a dramâu Cymraeg, sy'n cyfrannu'n dda at y cwricwlwm ehangach.  O ganlyniad, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion berfformio dramâu, dysgu am eu treftadaeth a hanes cyfoethog Cymru.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol.  Rhoddir cyfleoedd niferus i ddisgyblion fod yn egnïol yn ystod y diwrnod ysgol ac mewn llawer o glybiau ar ôl yr ysgol.  Caiff disgyblion y cyfnod sylfaen gyfleoedd i ddatblygu eu medrau corfforol yn effeithiol yn yr ardal laswellt newydd yn ystod eu sesiynau 'Dydd Llun Llanast' ('Mucky Monday') a 'Dydd Gwener Chwilota' ('Foraging Friday').  Mae hyn yn hyrwyddo ffyrdd gweithgar ac iach o fyw yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn effeithiol i ddatblygu medrau corfforol a chreadigol disgyblion.  Mae'r ddarpariaeth i sicrhau bod disgyblion yn gwneud dewisiadau synhwyrol am eu diogelwch eu hunain yn dda.  Mae'r rhain yn cynnwys gwersi am beryglon camddefnyddio sylweddau a diogelwch ar-lein.  Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod lles disgyblion a chwricwlwm creadigol wrth wraidd gweledigaeth ac athroniaeth yr ysgol.  Mae'n gosod disgwyliadau priodol uchel sy'n helpu sicrhau bod disgyblion yn cynnal safonau da a'u bod yn datblygu agweddau cadarnhaol a brwdfrydig at ddysgu.  Mae staff yn gweithio'n dda fel tîm i gefnogi gweledigaeth y pennaeth ar gyfer yr ysgol.  Mae staff yn canolbwyntio'n arbennig o dda ar sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol.  Maent yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau'n frwdfrydig i gefnogi dysgu a lles disgyblion, sy'n cynnwys cynnal clybiau buddiol ar ôl yr ysgol ar gyfer y disgyblion.  Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda â'r pentref a'r gymuned leol ehangach i hyrwyddo profiadau dysgu ysgogol a chefnogol ar gyfer disgyblion.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn cynnwys ffocws clir ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella.  Mae gan bob un o'r staff ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella.  Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn effeithiol, sy'n cynnwys dechrau datblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru.  Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol â'r consortiwm lleol ac ysgolion eraill, er enghraifft i wella arferion asesu, gosod targedau a datblygu cwricwlwm creadigol.

Mae prosesau'r ysgol i werthuso ei heffeithiolrwydd yn bwrpasol ac wedi'u seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol.  Mae'r systemau i gasglu gwybodaeth am ansawdd darpariaeth yr ysgol yn cynnwys gwrando ar ddisgyblion a rhieni, arsylwadau gwersi, teithiau dysgu a dadansoddi data asesu yn drylwyr.  O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddarlun clir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.  Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i gynllunio gwelliannau, fel datblygu ardal laswellt yn yr awyr agored yn llwyddiannus.  Maent yn gwneud yn siŵr fod pob un o'r staff yn gweithio gyda'i gilydd i ganolbwyntio ar feysydd y mae'r ysgol wedi nodi eu bod yn flaenoriaeth a gwerthuso'n bwrpasol gynnydd gwelliannau a gynlluniwyd.

Mae gweithdrefnau i reoli perfformiad staff yn gadarn.  Mae arweinwyr yn datblygu gwybodaeth a medrau staff yn effeithiol.  Maent yn rheoli adnoddau'n llwyddiannus i gynorthwyo disgyblion a hyrwyddo gwelliannau rheolaidd ar draws yr ysgol.  Mae

arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cael cyfleoedd perthnasol i gefnogi eu datblygiad proffesiynol, fel cyrsiau Cymraeg sabothol, ac maent yn cysylltu hyn yn agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus ac yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae llywodraethwyr yn gefnogol i'r pennaeth ac yn ei ddwyn i gyfrif yn gadarn fel ffrindiau beirniadol. Mae uwch arweinwyr yn hysbysu'r llywodraethwyr yn effeithiol am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Maent yn trefnu eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i gael dealltwriaeth uniongyrchol o waith yr ysgol, sydd o fudd i wella'r ysgol. Er enghraifft, mae llywodraethwyr yn mynd ar deithiau dysgu ac yn edrych ar ansawdd gwaith disgyblion ochr yn ochr ag athrawon er mwyn datblygu dealltwriaeth werthfawr o arferion presennol yr ysgol. Maent yn sicrhau bod yr adeilad yn cynnig amgylchedd dysgu o ansawdd da i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw adnoddau yn yr ardal awyr agored yn cyfoethogi profiadau disgyblion ac yn datblygu eu medrau cystal ag y gallent.

Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol nifer briodol o staff â chymwysterau addas, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, i gefnogi dysgu disgyblion. Mae'r pennaeth yn effeithiol yn ei rôl, ond ni chaiff ddigon o amser ar hyn o bryd i ymgymryd ag ystod lawn y dyletswyddau arwain a rheoli mewn ffordd gynaliadwy. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o gyd-destun yr ysgol yn ei hardal ac maent yn cefnogi'r ysgol yn dda i fynd i'r afael â mentrau cymunedol. Mae'r pennaeth, gyda chymorth y corff llywodraethol, yn monitro cynlluniau gwariant yn drylwyr. Mae'r ysgol yn dyrannu cyllid grantiau yn synhwyrol, yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, i fod o fudd cadarnhaol i safonau a lles disgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2020